

❖ DATHLU'R NADOLIG

'Disgwyliaf wrth yr Arglwydd; y mae fy enaid yn disgwyl, a gobeithiaf yn ei air; y mae fy enaid yn disgwyl wrth yr Arglwydd yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.'

'Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.'

'Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd.'

Disgwyl yr addewid, derbyn yr addewid, a dathlu'r addewid. Dyma yw byrdwn y tair adnod a glywsom yn awr, a dyma y ceisiwn ei wneud yn yr oedfa hon, sef disgwyl yn eiddgar yr addewid am y Meseia, derbyn yn ddiolchgar yr addewid am y Meseia, a dathlu yn llawen fod y Meseia yn Waredwr ein bywyd.

Yn gyntaf, disgwyl yr addewid

Darfu i Moses a'r proffwydi
ddweud amdano cyn ei ddod.

Do, bu disgwyl mawr am ganrifoedd yn Israel am y Meseia, ac mae'r proffwydi yn mynegi hyn yn glir iawn, fel y gwelwn, er enghraifft, yn llyfr y proffwyd Eseia.

Darlleniad: Eseia 11:1–10

Mae'n anodd i ni heddiw amgyffred dyfnder disgwyliad pobl Israel am y Meseia, a'r modd y parhaodd yr ysbryd hwn mor ddisglair am ganrifoedd lawer. Cenedl dan ormes cenhedloedd eraill fu Israel am y rhan fwyaf o'i hanes. Gormeswyd hi gan yr Eifftiaid, y Babiloniaid, y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ond, er hynny, ni ddiffoddwyd gobaith y genedl fechan hon, ac fe adlewyrchwyd hynny yn ei ffydd yn Nuw y byddai ryw ddydd yn anfon y Meseia i'w gwaredu o afael y gelynyon.

Erbyn cyfnod Iesu Grist, roedd y gobaith hwn wedi gwanhau yn fawr iawn yn Israel, a bellach, ychydig oedd yn dal i ddisgwyl yn weddigar am y Meseia. Dyddiau tywyll yn hanes Israel oedd y rhain. Gafaelai ymerodraeth Rhufain yn dynn amdani, gan ormesu ei phobl â threthi trymion a gorchfygu pob mudiad gwladgarol a feiddiai herio ei hawdurdod. Yn wyneb hyn, roedd y gobaith Meseianaid yn wan iawn yn y tir ond, er hynny, roedd gweddill ffyddlon i'w cael o hyd. Pobl yn gwrthod rhoi'r gorau i'r ysbryd oeddynt, ac a ddaliodd straen y disgwyl hir. Eneidiau prin a gwerthfawr oeddynt, ac yn eu plith yr oedd Mair a Joseff, a hen ŵr o'r enw Simeon ac Anna'r broffwydes.

Mae swyn neilltuol yn hanes Simeon ac Anna yn disgwyl cyflawniad yr addewid. Collodd Anna ei gŵr yn ifanc iawn, ond ni adawodd i'r brofedigaeth chwerw hon suro ei bywyd. Ar hyd ei hoes faith, fe lynodd yn ffyddlon wrth ei ffydd yn Nuw, gan ddisgwyl yn weddigar obeithiol am y Meseia. Roedd gan Simeon hefyd ddisgwyliadau crefyddol tebyg iawn i Anna. Fe wrandawn yn awr ar ei hanes yn Efengyl Luc.

Darlleniad: Luc 2:25–32**Yn ail, derbyn yr addewid**

'Wele, cawsom y Meseia,
cyfaill gwerthfawroca' 'rioed.'

Ond nid fel cyfaill y derbyniwyd y baban lesu gan nifer o bobl. Pan gyrhaeddodd ei rieni yn flinedig ym Methlehem, nid oedd lle iddynt yn y gwesty, a bu'n rhaid i Mair, ar ôl geni'r baban lesu, ei roi ym mhreseb yr anifail. Ond os oedd y croeso yn oeraidd ym Methlehem, nid oedd croeso o gwbl yn Jerwsalem, ac ar unwaith gorchmynnodd y brenin Herod i'w filwyr ladd y baban lesu a anwyd ym Methlehem.

Yn yr Efengyl yn ôl loan cyfeirir at ymateb amrywiol pobl i enedigaeth lesu Grist. Y mae rhai yn gwrthod credu, gan ddewis llwybr unig anghrediniaeth, tra y mae eraill yn credu, ac yn mwynhau perthynas newydd â Duw. Dywed loan:

Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono. Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes

iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw.

Mae'n dda dweud i nifer fawr o Iddewon hefyd, fel y cenedloedd, dderbyn Iesu Grist yn llawen ac yn ddiolchgar. Pobl felly oedd y bugeiliaid a'r doethion ac, yn eu brwdfrydedd, aethant i Fethlehem i weld yr hyn oedd wedi digwydd. Gadewch i ninnau yn awr fynd gyda hwy ar y daith yn llawen ein calon ac yn ddiolchgar ein hysbryd.

Darlleniad: Luc 2:1–5

Yn drydydd, dathlu'r addewid

Rydym wedi cyfeirio heddiw at ddisgwyl hir yr Iddewon am y Meseia, a'r derbyniad cynnes ac addolgar a gafodd gan y 'gweddill ffyddlon' yn Israel. Symudwn ymlaen yn awr at dathlu'r addewid. Rydym eisoes wedi canu mawl i Dduw am ddyfodiad ei fab Iesu Grist, a gwyddom am y perygl o ganu geiriau heb ganu mawl i Dduw. Mae'n hawdd iawn gyda threigladd y blynyddoedd golli rhin y Nadolig a rhyfeddod Gŵyl y Geni. Yn ei gerdd hyfryd i 'Deyrnas Diniweidrwydd' mae gan Rhydwen Williams rybudd dwys iawn i bawb ohonom:

Yn nheyrnas diniweidrwydd
Gwyn fyd pob plentyn bach
Sy'n berchen llygaid llawen
A phâr o fochau iach!
Yn nheyrnas diniweidrwydd
Gwae hwnnw, wrth y pyrth:
Rhy hen i brofi'r syndod,
Rhy gall i weld y wyrth!

Yn hanes y geni, gwelsom wŷr doeth yn addoli, a bugeiliaid cyffredin yn gogoneddu enw Duw. Mae'r Nadolig hwn unwaith eto yn estyn cyfle i bawb ohonom uno yn y moliant, a chyhoeddi, '*Daeth Duwdod mewn baban i'n byd*'.

I ni gredinwyr, mae i'r Nadolig ei naws a'i awyrgylch unigryw sy'n peri inni sylweddoli fod rhai pethau i'w derbyn yn hytrach na'u deall. Ni olyga hyn ein bod yn dilorni'r wedd ddeallusol i neges fawr Gŵyl y Geni, ond ein bod yn cydnabod bod ein meddyliau meidrol ni yn rhy gyfyng i ddatrys dirgelwch yr Ymgawdoliad. Yn hytrach, rhoddir cyfle inni, fel mynegodd Pantycelyn, drwy ffydd, amgyffred a rhyfeddu.

'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.'

Dyma yn wir yw neges syfrdanol yr Efengyl, a heddiw daethom ynghyd i dderbyn ac i dathlu yn llawen y newyddion da am Iesu Grist, ac i glodfori ei enw. Amen.

❖ **AUR, THUS A MYRR**

‘Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe’i gelwir, “Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon”.’

Mae’r Nadolig yn amser o lawenydd am fod Duw wedi dod i ganol bywyd dyn yn ei Fab Iesu Grist, ac wedi datguddio’i hun i ni yn ei gariad a’i ras. Yn y gwasanaeth hwn, byddwn yn dathlu’r digwyddiad rhyfeddol hwn mewn mawl a chân.

Darlleniad: Mathew 1:18–25

Unwaith eto y Nadolig hwn byddwn fel teuluoedd a chyfeillion yn rhoi a derbyn anrhegion. Y mae’r arferiad hwn yn gydnaws ag ysbryd y Nadolig oherwydd gŵyl y rhoddi mawr yw Gŵyl y Geni, ac yn y gwasanaeth hwn, byddwn yn cofio ac yn dathlu y rhoddi mwyaf a welodd ein byd erioed.

‘Wrth dderbyn ein hanrhegion
Ar fore dydd Nadolig,
O cofiwn anrheg Duw i’r byd,
Y baban bendigedig.’

Gŵyl y derbyn hefyd yw Gŵyl y Nadolig. Nid oes ystyr i roddi os nad oes rhywun i dderbyn. Byddwn yn anfon eto eleni nifer fawr o gardiau a pharseli yn y gobaith y byddant yn cael eu derbyn yn llawen. Yn yr un modd, anfonodd Duw ei rodd anhraethadwy i’r byd, a gwnaeth hynny yn y gobaith y byddwn yn ei derbyn yn llawen.

Yn yr efengylau, cawn hanes dau ddsbarth gwahanol iawn i’w gilydd yn derbyn y baban Iesu, sef y bugeiliaid gwerinol a syml eu bywyd, a’r doethion dysgedig a ddaeth o’r dwyrain i Fethlehem. Yn ein gwasanaeth heddiw, fe ganolbwyntiwn ar hanes y doethion yn dilyn y seren nes canfod trysor y nefoedd ar liniau Mair. Gadewch inni wrando ar yr hanes yn Efengyl Mathew.

Darlleniad: Mathew 2:1–12

Mae hanes y doethion yn ymweld â’r baban Iesu ym Methlehem Jwdea wedi rhoi cyfle i lawer bardd ac arlunydd ddefnyddio ei ddychymyg a llunio stori. Gŵr a wnaeth hyn oedd Beda, mynach o Sais o’r wythfed ganrif. Yn ôl Beda, brenhinoedd gwahanol iawn i’w gilydd o ran oedran, gwedd a phersonoliaeth oedd y tri gŵr doeth. Brenin ifanc, di-farf oedd Caspar, o deulu Cham. Brenin canol oed a thywyll ei groen oedd Balthasar, yn hanu o deulu Japheth, a hen frenin â barf wen oedd Melchior, o deulu Shem. Yn y stori, dywed Beda fod y tri brenin yn cynrychioli holl genhedloedd y byd, a phob oedran o bobl, ac yn eu hymweliad â’r baban Iesu, gwelai addewid am gyflawni’r gobaith a geir yn neges y proffwyd Esea, sef:

‘Fe ddaw’r cenhedloedd at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr.’

Mae eraill hefyd wedi tynnu ar eu dychymyg wrth fyfyrion ar hanes y doethion. Gwelodd Origen o Alexandria yn yr Aifft, diwinydd o’r ail ganrif, arwyddocâd arbennig yn rhoddion y doethion i’r baban Iesu, a chyhoeddodd fod aur yn arwydd o *frenhinaeth* Crist, thus yn arwydd o *offeiriadaeth* Crist, a myrr yn arwydd o *farwolaeth* Crist.

Yn ein gwasanaeth heddiw, fe arhoswn gyda’r tair rhodd a’u harwyddocâd i ni heddiw.

Fel y dywedwyd, mae sawl stori wedi eu gwau o gwmpas y doethion. Yn ôl un stori, y brenin ifanc Caspar a roddodd aur yn anrheg i’r baban Iesu, y brenin canol oed Balthasar a roddodd thus, a’r brenin Melchior, yr hen ŵr, a roddodd fyrr.

Dechreuwn gyda’r rhodd o ‘aur’. Aur yw brenin y metelau, ac yn chwedlau llawer o wledydd, pwysleisir mai aur yw’r rhodd sy’n weddus i frenin. Os felly, mae’n weddus iawn i’r brenin Iesu yn ei grud.

Un o rinweddau aur yw ei fod yn parhau yn ei werth. Mae llawer iawn o fetelau, gan gynnwys hyd yn oed fetelau caled fel haearn, yn rhydu ac yn darfod ymhen amser, ond mae aur yn eu goroesi i gyd. Wel,